

CYFARFOD: PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

DYDDIAD: 15 HYDREF 2020

TEITL: STRATEGAETH CYLLIDEB 2021/22

PWRPAS: CYNLLUNIO ARIANNOL

AWDUR: DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

AELOD CABINET: CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID

1. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn craffu rhai materion ariannol, gan gynnwys adroddiadau cyllidebol, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Strategaeth Cyllideb 2021/22) i'r Cabinet ar 13 Hydref 2020.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'w graffu.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r ansicrwydd yng nghyswllt cyllideb y Cyngor ar gyfer 2021/22, a sylwebu ar y strategaeth.